

EDWARDS, WILLIAM (1790 - 1855), ' Gwilym Callestr ' (ond y mae'n llawer mwy hysbys dan yr enw ' Wil Ysgeifiog'), bardd

Enw: William Edwards
Ffugenw: Gwilym Callestr, Wil Ysgeifiog
Dyddiad geni: 1790
Dyddiad marw: 1855
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd mewn bwthyn o'r enw Plas Iolyn, Caerwys. Saer melinau oedd with ei grefft, ond yr oedd yn ddyn diarhebol wlyb - fe gofir y disgrifiad doniol ohono gan 'Talhaiarn' (*Gwaith*, ii, 200-2). Bu mewn gwallgofdy fwy nag unwaith, ac yng ngwallgofdy Dinbych y bu farw. Ond yr oedd yn fardd digon sylweddol, ac yn enwedig yn englynwr da. Enillodd yn eisteddfod Biwmares, 1832, ar yr awdl (*Seren Gomer*, 1832, 312), ac yn yr Wyddgrug, 1823, ar yr englyn. Yn y gwallgofdy y sgrifennodd ei farwnad i 'Carnhuanawc', 1853, a welir yn *Golud yr Oes*, 1863, 112-3. Y mae llawer o'i waith ar chwâl yn *Seren Gomer*, *Yr Eurgrawn*, *Y Gwladgarwr*, *Y Geninen*, a'r *Cymru (O.M.E.)*. Cyhoeddodd gyfrol, *Cell Callestr* (Trefriw, 1815), o'i waith ef ei hun ac eraill. Rhoes 'Talhaiarn' a 'Chaledfryn' garreg ar ei fedd yn Ysgeifiog. Ni wyddys union ddydd ei eni na'i farw.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Charles Ashton, *Hanes llenyddiaeth Gymreig o 1651 O.C. hyd 1850* (1893) 596

Cymru (O.M.E.), xviii, 302

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [William Edwards](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q18535598](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1953). EDWARDS, WILLIAM (1790 - 1855), ' Gwilym Callestr ' (ond y mae'n llawer mwy hysbys dan yr enw ' Wil Ysgeifiog'), bardd. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-EDWA-WIL-1790>



LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government